

Ymgyrch gan

**thirtyone:
eight**



thirtyoneeight.org

**Un eglwys
Un diwrnod
Un neges:
Amddiffyn
pobl fregus
gyda'n gilydd.**

**Sul Diogelu
2022**

Gweddïau

Gweddi Sul Diogelu 2022

Annwyl Dduw,
helpa ni i fod yn eglwys sy'n:
Caru, croesawu, amddiffyn.
Gwrandu, dysgu, gweini.
Edifarhau, adfer, gweddnwidi.
Gwerthfawrogi, gofalu, credu.
Dduw Cyfiawnder a thosturi, gwrandu ein gweddi.
Helpa ni, iachâ ni, arwain ni, gweddiwn hyn,
yn enw Iesu.
Amen.



Lawrlwythwch y fideo yma: thirtyoneeight.org/downloads

Dros ddioddefwyr a goroeswyr Camdriniaeth

Annwyl Dduw,
gweddiwn dros bawb sy'n dioddef drwg a niwed oddi mewn i deulu'r eglwys,
pa un ai ydym yn ei adnabod neu beidio, gwyddom dy fod ti yn eu hadnabod wrth eu henwau.
Dros y rhai sy'n teimlo'n gaeth, dyro ddihangfa,
dros y rhai sy'n brifo, dyro gysur a iachâd,
dros y rhai sy'n ceisio cyfiawnder, dyro wroldeb a nerth.
Fel eglwys yr ydym yn un corff ac os bydd un rhan ohono yn dioddef,
y bydd pob rhan ohono yn dioddef.
Gweddiwn arnat i anfon i bawb sy'n dioddef bobl sy'n barod i wrando arnyn nhw,
i'w cynorthwyo ac i gyd-gerdded gyda nhw.
Amen.

Dros y rhai sy'n ymwneud â gwaith diogelu

Annwyl Dduw,
gweddiwn dros bawb sy'n gwasanaethu mewn swydd diogelu oddi mewn i'n Heglwys.
Gweddiwn yn arbennig dros **[Enw(au) eich Cydlynnydd Diogelu neu'r tîm diogelu]**.
Diolchwn i ti am eu parodrwydd i roi eu hamser i gyflawni'r gwaith pwysig hwn.
Dyros iddynt ddoethineb, dirnadaeth, a nerth.
Helpa ni i'w cynorthwyo yn eu gwaith, eu cofio yn ein gweddïau, i ymateb i'w
ceisiadau ac i dderbyn eu cyngor fel y gallwn ni fod yn lle sy'n fwy diogel i bawb.
Yn enw'r Tad, Mab a'r Ysbryd Glân.
Amen.

Dros arweinwyr yr eglwys.

Annwyl Dduw,

Gweddiwn dros y rhai sy'n cyflawni swyddi o arweinyddiaeth yn ein Heglwys.

Gweddiwn dros **[enwau y tîm arwain]**.

Diolchwn i ti am eu hymrwymiad i wasanaethu yn y ffyrdd hyn.

Wrth iddynt wneud penderfyniadau, lliwio'r diwylliant, a cheisio ein harwain yn ein haddoliad a'n tystiolaeth, dyro iddynt ddoethineb, gostyngeddwydd, a gwroldeb i ddilyn esiampl Iesu gwas y gweision.

Helpa ni i'w cynorthwyo nhw yn eu gwaith, eu cofio yn ein gweddïau, a sicrhau bod ganddyn nhw eraill o'u hamgylch i'w cynorthwyo, eu herio a'u hannog fel y gallwn fod yn lle sy'n fwy diogel i bawb.

Gweddiwn hyn oll yn enw Iesu.

Amen.

Gweddi Atebol

I fannau tywyll ein byd

lle mae pobl yn ofni ac yn llwgu

Dduw dyro oleuni, dyro gariad.

I fannau lle mae pobl yn dreisgar

i fannau lle mae pobl yn ymladd

Dduw dyro oleuni, dyro gariad.

I fannau lle rydym yn teimlo'n anniogel

i sefyllfaoedd sy'n peri niwed i ni ac sy'n gwneud i ni ofni

Dduw dyro oleuni, dyro gariad.

Cyflwynwn ein gweddïau yn enw Iesu

ac yn nerth yr Ysbryd Glân.

Amen



Adnodau o'r Ysgrythur

Gellir defnyddio'r darnau a'r adnodau hyn fel rhan o'ch gwasanaeth addoliad.

Eseia 41 adnodau 10 a 13

Paid ag ofni, yr wyf fi gyda thi;
paid â dychryn, myfi yw dy Dduw.
Cryfhaf di a'th nerthu,
cynhaliaf di â llaw dde orchfygol.
Canys myfi, yr Arglwydd dy Dduw,
sy'n gafael yn dy law dde,
ac yn dweud wrthyf, 'Paid ag ofni,
yr wyf fi'n dy gynorthwyo.'

Marc 12:28-31

Daeth un o'r ysgrifenyddion ato, wedi eu clywed yn dadlau, ac yn gweld ei fod wedi eu hateb yn dda, a gofynnodd iddo, "Prun yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?" Atebodd Iesu, "Y cyntaf yw, 'Gwranddo, O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain."

Diarhebion 31:8 (Beibl.net)

Siarad ar ran y bobl hynny sydd heb lais,
ac amddiffyn y rhai sydd wedi colli popeth.

Ioan 13:34

Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chiwithau i garu'ch gilydd.

Iago 1:27

Dyma'r grefydd sy'n bur a dilychwin yng ngolwg Duw ein Tad: bod rhywun yn gofalu am yr amddifad a'r gweddwon yn eu cyfyngder, ac yn ei gadw ei hun heb ei ddifwyno gan y byd.

Luc 22:25-26

Meddai ef wrthynt, "Y mae brenhinoedd y Cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai sydd ag awdurdod drostynt yn cael eu galw yn gymwynaswyr. Ond peidiwch chwi â gwneud felly. Yn hytrach, bydded y mwyaf yn eich plith fel yr ieuengaf, a'r arweinydd fel un sy'n gweini.

Mica 6:8

Dywedodd wrthynt, feidrol yn, beth sydd dda, a'r hyn a gais yr ARGLWYDD gennynt: dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch, ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.

Salm 91:1-4 (Beibl.net)

Bydd y sawl mae'r Duw Goruchaf yn ei amddiffyn
yn aros yn saff dan gysgod yr Hollalluog.

Dywedais, " Arglwydd, rwyt ti'n gaer ddiogel,
yn lle hollol saff i mi fynd.

Ti ydy fy Nuw i, yr un dw i'n ei drystio."

Bydd Duw yn dy achub di o drap yr heliwr,
a rhag y pla marwol.

Bydd e'n rhoi ei adain drosot ti,
a byddi'n saff o dan blu ei adenydd.

Mae'r ffaith fod Duw yn dweud y gwir
yn darian sy'n dy amddiffyn di.

Effesiaid 5:8-13

Tywyllwch oeddech chwi gynt, ond yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd. Byddwch fyw fel plant goleuni, oherwydd gwelir ffrwyth y goleuni ym mhob daioni a chyfiawnder a gwirionedd. Gwnewch yn siŵr beth sy'n gymeradwy gan yr Arglwydd. Gwrthodwch ymgysylltu â gweithredoedd diffrwyth y tywyllwch, ond yn hytrach dadlennwch eu drygioni. Gwarthus yw hyd yn oed crybwyll y pethau a wneir ganddynt yn y dirgel. Ond y mae pob peth a ddadlennir gan y goleuni yn dod yn weladwy, oherwydd goleuni yw pob peth a wneir yn weladwy.

Call us **0303 003 1111**
email us **info@thirtyoneeight.org**
or visit **thirtyoneeight.org**
follow us **[@thirtyoneeight](https://www.instagram.com/thirtyoneeight)**

PO Box 133, Swanley, Kent, BR8 7UQ

Charity No. 1004490, Scottish Charity No. SC040578 ©Thirtyone:eight 2021 No part of this publication may be copied, reproduced, shared, distributed, or transmitted to any party, without the prior written permission of the publisher.
Download a version of this document at thirtyoneeight.org



Creating safer places. Together.